



## Maddeuant - yr Allwedd i Ryddid

*Er mwyn eich sozo, mae'n yn bwysig iawn i chi baratoi eich calon i faddau i'r rhai sydd wedi gwenudd cam â chi. Dydi rhan fwyaf o bobl ddim yn deallt beth ydy maddaeuant a maen't yn ffeindio fo'n annodd i faddau i'r rhai sydd wedi eu anafu a'u brifo yn ddwfn.*

Fyddan nhw'n dweud: *"doedd o ddim yn deg"...* *"doedd o ddim yn iawn"...* Neu: *"Sut galla i faddau os dydyn nhw ddim yn ei haeddu".*

Os ydy'r ymatebion yma'n swnio'n gyfarwydd, ac yn mynegi sut rydych chi'n teimlo, ddyla chi wybod:

- Dydy maddeuant ddim yn golygu fod beth wneathon nhw i chi yn iawn
- Dydy maddeuant ddim yn golygu eu bod nhw'n dianc am ddim
- Dydy maddeuant ddim yn golygu eich bod chi'n ildio eich hawliau

### Anfaddeuant:

- Dydy o ddim yn brifo'r un wnaeth eich brifo chi
- Mae'n brifo chi yn unig
- Mae'n eich rhwymo mewn carchar o boenedigaeth
- Yn aml yn achosi i chi gael chwerwedd, casineb a dicter

### Mae rhoi maddeuant yn gwneud y pethau rhyfeddol yma:

- Rydych yn camu allan o'r ffordd a gadael i Dduw cael llinell uniongyrchol i'r person yna
- Mae'n golygu eich bod chi'n rhydd o'r bwrddw rydych wedi bod yn cario
- Mae'n eich rhyddhau o garchar o boenedigaeth
- Mae'n cau drws sy'n gadael i'r gelyn cael mynediad atoch chi
- Mae'n galluogi chi i ddweud:
  - "Dwi'n dewis i roi grâs"
  - "Dwi'n dewis i adael i'r person yma fynd i ddwylo Duw"
  - "Dydw i ddim am fod eu barnwr nhw"

### Cymerwch ychydig o funudau i fyfyrion ar yr ysgrythurau yma:

#### Matthew 6:14-15

*Os gwnewch chi faddau i bobl pan maen nhw wedi gwneud cam â chi, bydd eich Tad nefol yn maddau i chi hefyd. Ond os na wnewch chi faddau i'r bobl sydd wedi gwneud cam â chi, fydd eich Tad ddim yn maddau'ch pechodau chi.*

#### Matthew 18:21-35

Dyma stori'r gwas wnaeth wrthod maddau. Ar ol iddo fo gael ei faddau llawer, maer' meistr yn dweud wrtho; *'Ddylet ti ddim maddau i dy gydweithiwr fel gwnes i faddau i ti?' Roedd y brenin yn gandryll, felly gorchmynnodd daflu'r swyddog i'r carchar i gael ei arteithio nes iddo dalu'r cwbl o'r ddyled yn ôl. Dyna sut fydd fy Nhad nefol yn delio gyda chi os na wnewch chi faddau'n llwyr i'ch gilydd.*

#### Luc 6:37

*Peidiwch bod yn feirniadol o bobl eraill, ac wedyn wnaiff Duw mo'ch barnu chi. Peidiwch eu condemnio nhw, a chewch chi mo'ch condemnio. Os gwnewch faddau i bobl eraill cewch chi faddeuant.*

***Mae maddeuant yn orchymun gan yr Arglwydd.***

***Oherwydd fod Iesu wedi maddau i ni yn hael, ddylwn ni faddau'n hael hefyd.***

***Mae maddeuant yn ddewis, dydy o ddim yn deimlad.***

***Mae maddeuant yn hanfodol i waredigaeth a rhyddid.***